

*This information was correct as of 1 October 2019. Please visit the Preparing Wales website and the Wales NHS Confederation Frequently Asked Questions on their website for the most up-to-date advice.*

## **Important Brexit information for all Health and Social Care staff – please cascade to your teams**

This Brexit bulletin is a summary of the issues affecting health and social care in Wales. This issue is about the continuity of supply of **medical supplies and clinical consumables** (items that can't be reused such as syringes, stents, knee implants).

### **Current situation**

The Welsh Government has been working closely with the UK Government and other devolved administrations to ensure supplies will continue as we prepare to leave the EU.

We need local teams to:

- Monitor their stock levels of medical devices and clinical consumables, and ensure they maintain them
- Avoid stockpiling
- Order goods earlier and not at the last minute, bearing in mind that supplies may take longer to come than normal
- Speak to your local procurement teams if you are unsure

Should the UK leave the EU without a deal and there are disruptions to supplies, there are a range of actions that will be taken to make sure services can continue to run safely.

### **In the event of problems with supplies**

It's important that any anticipated supply issues are considered fully at the local level using normal business processes. Local clinicians and teams should work closely with their procurement and regional supply chain staff who will have access to up-to-date information on the likely availability and delivery of products.

The NHS Wales Shared Services Partnership are talking to colleagues across the UK to anticipate any particular issues.

It's essential that clinicians are fully engaged in this important aspect of patient care, particularly if a shortage means that an alternative item needs to be found.

However, where business as usual processes have been exhausted, your local procurement team will have access to:

- Contingency supplies of medical devices and clinical consumables that have been stocked in a warehouse in South East Wales. There are an additional 8 weeks



supply of the most commonly used NHS items, and a smaller number of products for social care.

- A Supply Disruption Support Centre, supported by the National Clinical Leads, that will help local teams to address any issues in the supply of medical devices and clinical consumables. The contact details are:
  - Telephone: 0300 1234 727. Operational hours: 8:00 to 18:00 – Monday to Friday. This line will be open from Monday 28 October.
- UK-wide support and systems where needed

## For more information

If staff have questions about the supply of medicines, medical devices or clinical consumables, they should raise them with their organisations in the first instance.

The Welsh [NHS Confederation's website also has a frequently-asked-question which has the most up-to-date information – www.welshconfed.org](http://www.welshconfed.org)

*Roedd yr wybodaeth hon yn gywir ar 1 Hydref 2019. Ewch i wefan Paratoi Cymru a Chwestiynau Cyffredin Cydffederasiwn y GIG yng Nghymru i gael y cyngor diweddaraf.*

**Cynulleidfa:** Gweithwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol proffesiynol

**Dosbarthiad:** Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Byrddau Iechyd y GIG, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cydffederasiwn GIG Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned

## Gwybodaeth bwysig yn ymwneud â Brexit ar gyfer holl staff Iechyd a Gofal Cymdeithasol - dosbarthwch i'ch timau

Mae'r bwletin Brexit hwn yn rhoi crynodeb i chi o'r materion sy'n effeithio ar Iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r rhifyn hwn yn ymwneud â pharhad **cyflenwadau meddygol a deunyddiau clinigol** (eitemau na ellir eu hailddefnyddio fel chwistrelli, stentiau, mewnbhaniadau pen-glin).

### Y sefyllfa bresennol

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig eraill i sicrhau y bydd cyflenwadau yn parhau wrth inni baratoi i ymadael â'r UE.

Rydym yn gofyn i dimau lleol:

- Fonitro lefelau stoc dyfeisiau meddygol a deunyddiau clinigol, a sicrhau bod y cyflenwadau'n cael eu cynnal
- Osgoi pentyrru cyflenwadau
- Archebu nwyddau yn gynharach yn hytrach nag ar y funud olaf, gan gofio y gall gymryd yn hirach nag arfer i'r cyflenwadau gyrraedd
- Siaradwch â'ch timau caffael lleol os nad ydych yn siŵr

Os bydd y DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb a bod hyn yn effeithio ar gyflenwadau, mae amryw o gamau gweithredu a fydd yn cael eu cymryd i wneud yn siŵr y gall gwasanaethau barhau mewn modd diogel.

### Os bydd problemau gyda chyflenwadau

Mae'n bwysig bod unrhyw broblemau a ragwelir gyda chyflenwadau yn cael eu hystyried yn llawn ar lefel leol gan ddefnyddio prosesau busnes arferol. Dylai clinigwyr a thimau weithio'n agos gyda'u staff caffael a staff y gadwyn gyflenwi rhanbarthol. Byddant hwy'n gallu cael gafael ar yr wybodaeth ddiweddaraf am argaeledd a chyflenwad tebygol unrhyw nwyddau.

Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn siarad gyda chydweithwyr drwy'r DU i geisio rhagweld unrhyw broblemau penodol.

Mae'n hanfodol bod clinigwyr yn ymrwymo'n llawn i'r agwedd bwysig hon o ofal i gleifion, yn enwedig os yw prinder yn golygu bod angen dod o hyd i eitem arall addas.

Ond os yw eich prosesau busnes arferol wedi'u dihysbyddu, bydd gan eich tîm caffael lleol fynediad i'r canlynol:

- Cyflenwadau wrth gefn o ddyfeisiau meddygol a deunyddiau clinigol sydd wedi'u cadw mewn warws yn Ne-ddwyrain Cymru. Mae gwerth 8 wythnos o gyflenwad ychwanegol o'r eitemau sy'n cael eu defnyddio amlaf yn y GIG, a nifer llai o gynhyrchion ar gyfer gofal cymdeithasol.
- Canolfan Gymorth i ymateb i darfu ar gyflenwadau, gyda chymorth yr Arweinwyr Clinigol Cenedlaethol, a fydd yn helpu timau lleol i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau gyda chyflenwi dyfeisiau meddygol a deunyddiau clinigol. Eu manylion cyswllt yw:
  - Rhif ffôn: 0300 1234 727. Oriau gweithredu: 8:00 i 18:00 - dydd Llun i ddydd Gwener. Bydd y llinell hon ar gael o ddydd Llun 28 Hydref ymlaen.
- Cymorth a systemau ym mhob rhan o'r DU os oes angen

## I gael rhagor o wybodaeth

Os oes gan staff gwestiynau am gyflenwad meddyginiaethau, dyfeisiau meddygol neu ddeunyddiau clinigol, dylent eu codi gyda'u sefydliadau i ddechrau.

Ar wefan Cydffederasiwn GIG Cymru mae adran 'cwestiynau cyffredin' sy'n cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf – [www.welshconfed.org](http://www.welshconfed.org)